# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mercher, 12 Chwefror 2003

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**2.00pm**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

**2.23pm**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 5.

**2.52pm**
**Cwestiwn brys**
Gofynnodd Mick Bates cwestiwn brys - A wnaiff y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ddatganiad ar y cyhoeddiad am golli swyddi at KTH yn Llanidloes?

**3.08pm**
**Gwnaeth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes datganiad ar Addysg ar gyfer y blynyddoedd 14-19.**

**3.38pm**
**Pwynt o Drefn**

**3.43**
**Adroddiad Grant Arbennig Rhif 13: Cyllid Ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Awdurdodau Addysg Lleol - y Gronfa Arloesi ar gyfer Ysgolion Bach**
**NDM1345 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 13) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gorchymyn:**
O blaid 37 ; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 37
**Derbyniwyd y cynnig.**

**4.00pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau**

**Penodedig) (Cymru) 2003**
**NDM1346 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2003.

**NDM1347 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2003.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r Gorchymyn drafft a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar yr egwyddor:**
O blaid 37 ; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 37
**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gorchymyn:**
O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 36
**Derbyniwyd y cynnig.**

**4.15pm**
**Cynnig i gymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog 6.9 - *Roedd angen mwyafrif o 2/3ydd i dderbyn y cynnig***
**NDM1349 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan Adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 34 :

(i) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd i'r Aelodau ar 5 Chwefror 2003 ; ac

(ii) yn cymeradwyo'r diwygiad canlynol o'r rheolau sefydlog. Rhoi yn lle Rheol Sefydlog 6.9 -

"Mewn unrhyw gyfarfod llawn ac ar ôl i gwestiynau i'w hateb ar lafar gael eu cymryd, gall Aelod gynnig mewn araith heb fod yn fwy na thair munud ei hyd y dylai'r Cynulliad ystyried mater penodol, ar yr amod –

a) bod yr Aelod wedi hysbysu'r Llywydd am ei ddymuniad i wneud hynny ac am y mater o leiaf awr cyn dechrau'r sesiwn;

b) bod Aelod heblaw Gweinidog wedi rhoi'r hysbysiad, a bod y Llywydd wedi rhoi cyfle i Weinidog gyflwyno sylwadau yn breifat iddo neu iddi ar y mater; a

c) bod y Llywyddd yn fodlon bod y mater o bwys cyhoeddus, a'i fod wedi hysbysu'r Aelod (ac, os oes angen, y Gweinidog) yn unol â hynny.

Os bydd Aelod heblaw Gweinidog yn gwneud y cynnig, bydd y Llywydd yn caniatáu i'r Gweinidog ateb mewn araith na fydd yn para yn hwy na thair munud. Bydd y Llywydd yn cynnal pleidlais ar y cynnig yn union ar ôl iddo gael ei wneud neu, os bydd Gweinidog yn ateb, ar ôl yr ateb hwnnw. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu ystyried y mater, bydd yn gwneud hynny yn ystod y cyfarfod hwnnw (neu os bydd y Llywydd yn penderfynu felly) yr un sy'n dilyn yn syth, a bydd y Llywydd yn addasu'r amserlen ar gyfer busnes fel y gwêl yn dda . Os yw'r mater o fewn cyfrifoldebau Pwyllgor y Ty, yna yn lle "Gweinidog" yn y paragraff hwn, rhodder "aelod o Bwyllgor y Ty yn ateb ar ran y Pwyllgor"

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35
**Derbyniwyd y cynnig.**

**4.17pm**
**Dadl ar gynnydd y Blynyddoedd Cynnar a ffyrdd o ymdrin â'r cyfnod sylfaen newydd**
**NDM1348 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r cynnydd o ran cyflwyno darpariaeth y blynyddoedd cynnar ledled Cymru a chynigion y Gweinidog ar gyfer Cyfnod Sylfaen.

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

ond yn cydnabod bod angen digon o adnoddau i reoli newid yn y dyfodol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:**
O blaid 14 ; Ymatal 0; Yn erbyn 23; Cyfanswm 37
**Gwrthodwyd y cynnig.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gorchymyn:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig.**

**5.01pm**
**Dadl fer -** NDM1350 Owen John Thomas (Canol De Cymru); Yr Argyfwng Tai Trefol

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.27pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 25ed Chwefror 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**